

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 4) 2026**

- 1. Ar 23 Mehefin 2026, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diwygio'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlenni isod.
- 2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 19 Hydref 2026 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu gosod neu eu tynnu, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) (Rhif 4) 2026"
- 3. Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
- 4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos o 15 Hydref 2026, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Bydd y Gorchymynion Rheoleiddio Traffig canlynol yn cael eu diwygio fel a ganlyn: Gorchymyn Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd (Gorfodi Sifil) Cyngor Bro Morgannwg 2013
Gorchymyn Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd (Gorfodi Sifil) (Diwygio) Cyngor Bro Morgannwg 2014
Gorchymyn Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd (Gorfodi Sifil) (Diwygio) Cyngor Bro Morgannwg 2020
Gorchymyn Mannau Parcio Oddi Ar y Stryd (Gorfodi Sifil) (Diwygio) Cyngor Bro Morgannwg 2025

ATODLEN 2

Bydd y canlynol yn cael eu hychwanegu at y Gorchymynion Rheoleiddio Traffig uchod.

O dan 'Dehongli', ychwanegir y canlynol:

'Cyfnod Parcio am Ddim' - Bydd y Cyfnod Parcio am Ddim yn uchafswm o 2 awr neu unrhyw gyfnod arall fel y cyfeirir ato yn y gorchymyn neu ar yr arwyddion gwybodaeth ffioedd yn y maes parcio.

Ar ôl i'r cyfnod parcio am ddim ddod i ben, rhaid i gerbydau adael y maes parcio a pheidio â dychwelyd o fewn 2 awr.

Fel arall, gall y cerbyd aros yn y maes parcio ar ôl i'r Cyfnod Parcio am Ddim ddod i ben ar yr amod bod y ffi parcio briodol wedi cael ei thalu yn unol â'r gorchymyn a'r arwyddion gwybodaeth ffioedd yn y maes parcio.

Dyddiedig 15 Hydref 2026
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA

**THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL
(OFF STREET PARKING PLACES)
(CIVIL ENFORCEMENT) (AMENDMENT) (NO 4) ORDER 2026**

- 1. On the 23 June 2026 the Vale of Glamorgan Council in exercise of its powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 and the Traffic Management Act 2004 and all other enabling powers made an Order to install and amend the provisions specified in the Schedules below.
- 2. The Order will come into operation on 19 October 2026 or on the date that the signs and road markings are installed or removed whichever is the later and be known as the "Vale of Glamorgan Council (Off Street Parking Places) (Civil Enforcement) (Amendment) (No 4) Order 2026"
- 3. A copy of the Order may be inspected on the Council's website at www.valeofglamorgan.gov.uk
- 4. If you wish to question the validity of the Order or any provisions contained therein on the grounds that they are not within the powers conferred by the above Act or on the grounds that any requirement of the same or that any instrument made under it has not been complied with in relation to the Order, you may within six weeks from the 15 October 2026 apply to the High Court for this purpose.

The following Traffic Regulation Order is to be amended as follows:

Vale of Glamorgan Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement) Order 2013

SCHEDULE 1

The following Traffic Regulation Orders are to be amended as follows:
Vale of Glamorgan Council Off Street Parking Places (Civil Enforcement) Order 2013
Vale of Glamorgan Council Off Street Parking Places (Civil Enforcement) (Amendment) Order 2014
Vale of Glamorgan Council Off Street Parking Places (Civil Enforcement) (Amendment) Order 2020
Vale of Glamorgan Council Off Street Parking Places (Civil Enforcement) (Amendment) Order 2025

SCHEDULE 2

The following shall be added to the above Traffic Regulation Orders

In 'Interpretation' Add the following:

'Free Parking Period' - The Free Parking Period shall be a maximum period of 2 hours or any other period as referred to in the order or on the charges information signs within the car park.

Following the expiry of the free parking period, vehicles shall depart the carpark with no return within 2 Hours.

Alternatively, the vehicle may remain in the car park following the expiration of the Free Parking Period provided the appropriate parking charge is paid in accordance with the order and Charges information signs within the car park.

Dated this 15th day of October 2026
Director of Environment & Housing
Vale of Glamorgan Council,
Alps Depot, Wenvoe CF5 6AA